Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cynllun Chwarae DASH**

**Ysgol Bro Sion Cwilt**
**Synod Inn**
**Llandysul**
**SA44 6JZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

31/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chynllun Chwarae DASH

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Darparwr cofrestredig | DASH |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Awst 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt gysylltiadau cadarnhaol o anwyldeb gyda'r staff gofal ac maent yn ffurfio cyfeillgarwch cryf gyda'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain. Maent yn ddysgwyr gweithredol a chwilfrydig ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae.

Mae'r staff yn dilyn polisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant ac yn hyrwyddo rhyngweithio ac ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau addas i gefnogi dysgu, datblygiad a mwynhad y plant yn ystod eu hamser yn y cynllun chwarae.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal asesiadau risg a gwiriadau rheolaidd. Maent yn darparu amgylchedd sy'n galluogi'r plant i chwarae a dysgu tu mewn a thu allan. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau addas ar gael yno.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r cynllun chwarae a'r staff yn dda. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, gan helpu i greu awyrgylch tawel a chroesawgar. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r gofal a ddarperir, sy'n helpu'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad i gynllunio ar gyfer gwelliannau.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn fodlon, wedi ymlacio ac yn hapus yn y lleoliad. Mae ganddynt gysylltiadau emosiynol agos ag oedolion cyfarwydd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio. Mae bron pob un o'r plant yn hapus i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn unol â'u cyfnod datblygu a'u hanghenion unigol. Mae llawer o'r plant yn cael sicrwydd trwy aros yn agos at y staff gofal cyfarwydd pan fyddant yn teimlo'n ansicr neu angen cymorth emosiynol.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dechrau datblygu sgiliau cymdeithasol pwysig megis cymryd tro a rhannu gyda'u ffrindiau. Er enghraifft, cymerodd ychydig o'r plant eu tro a chwarae ochr yn ochr â'i gilydd ar y traeth lleol; cloddio'r tywod am gyfnod parhaus a helpu ei gilydd i lenwi'r bwcedi i adeiladu castell tywod. Maent yn dangos parch at adnoddau ac mae ychydig o'r plant yn dechrau helpu i dacluso rhwng gweithgareddau pan ofynnir iddynt,*"A ddylem ni dacluso cyn mynd ar y bws?"*

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a gynigir. Maent yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser pan fydd ganddynt ddiddordeb yn y gweithgaredd. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau synhwyraidd sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn mwynhau'r offerynnau cerdd ac yn gwenu wrth chwarae gyda'r drymiau, wrth eu curo a chanu tiwn. Mae'r plant eraill yn mwynhau gwrando'n ofalus ar y dôn sy'n cael ei ganu gan y piano.

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau hyderus ynghylch ble maent eisiau chwarae ac yn dewis adnoddau'n annibynnol neu gyda chefnogaeth addas gan y staff gofal. Maent yn cyfathrebu eu hanghenion yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys defnyddio iaith a chyfathrebu di-eiriau ac yn eu tro, maent yn derbyn ymatebion priodol. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn i'r staff gofal helpu i'w gwthio o gwmpas ar y beiciau, "*Allwch chi wthio fi'n gyflym?*".

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd yn natblygiad eu sgiliau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymolchi eu dwylo'n annibynnol ac yn cyfleu'r hyn yr hoffent ei gael ar gyfer eu byrbryd, gan ddewis beth fyddai orau ganddynt. Mae bron pob un o'r plant yn cyfleu ystod o hoffterau a theimladau trwy eu gweithredoedd, llais, neu fynegiant. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, dywedodd plentyn wrth y staff gofal y byddai'n well ganddo gael ei focs bwyd ei hun yn hytrach na'r byrbryd a baratowyd ar gyfer y plant yn y lleoliad. Tra ar y traeth, dywedodd rhai o'r plant nad oeddent yn hoffi teimlad y tywod ac y byddai'n well ganddynt beidio ag eistedd arno.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth gadw'r plant yn ddiogel ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau effeithiol y lleoliad. Mae'r staff gofal yn gwybod pa weithdrefn y dylent ei dilyn os oes ganddynt bryderon am blentyn ac mae ganddynt hyfforddiant diogelu cyfredol. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod y plant a'r staff yn ymwybodol o'r drefn i'w dilyn os bydd angen iddynt adael yr adeilad. Mae'r staff gofal yn cadw cofnodion priodol o unrhyw anafiadau presennol i'r plant. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn briodol a rhennir y rhain gyda rhieni.

Mae'r staff gofal yn rhoi trefn ar waith i helpu i gefnogi a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r byrddau'n cael eu glanhau cyn eu defnyddio ar gyfer byrbrydau ac anogir y plant i ymolchi eu dwylo trwy gydol y sesiwn. Sicrheir bod dewisiadau bwyd iach, megis ffrwythau, ar gael ar gyfer byrbrydau ac mae diodydd ar gael i'r plant drwy gydol y dydd i sicrhau eu bod yn cadw'n hydradol. Mae'r staff gofal yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach trwy fynd allan i'r awyr agored.

Mae'r staff gofal yn fodelau rôl da, ac mae ganddynt agwedd gynnes a gofalgar at y plant. Maent yn gwrtais, yn foesgar ac yn trin y plant yn deg a chyda pharch. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan gymryd rhan weithredol yn eu chwarae a'u dysgu pan fo'n briodol gwneud hynny. Mae'r staff gofal yn rheoli ymddygiad yn dda, gan deilwra eu hymatebion i anghenion a galluoedd gwahanol oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal a phrofiadau addas ar gyfer anghenion unigol pob plentyn. Maent yn addasu arferion a chyfleoedd i sicrhau y darperir yn dda ar gyfer yr holl anghenion. Maent yn gweithio ar y cyd ag ystod o asiantaethau cymorth megis ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, a gweithwyr meddygol proffesiynol. Yn ystod ein hymweliad, roedd y staff gofal yn gweithio ar gymhareb 1:1 gyda'r plant i ddiwallu anghenion plant unigol. Mae'r staff gofal yn caniatáu i'r plant gael dewis rhydd o ran sut maent yn treulio eu hamser ac yn cynllunio a chynnig gweithgareddau addas. Mae'r rhain yn galluogi'r plant i gael ystod o brofiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, diwrnodau thema wahanol megis celf a chrefft a gweithdy cerdd, yn ogystal â nifer o wibdeithiau megis i'r traeth lleol a chanolfan bywyd gwyllt.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r fynedfa yn ddiogel, a chofnodir ymwelwyr fel y gellir cyfeirio at yr wybodaeth os oes angen. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn yr amgylchedd. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i wirio'n rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw beryglon newydd wedi codi. Mae'r tu allan wedi'i amgylchynu gan ffensys diogel ac mae'n fan diogel i'r plant chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle ac unrhyw fannau chwarae awyr agored yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn darparu amgylchedd da ar gyfer chwarae a dysgu. Mae’r cynllun chwarae wedi’i leoli o fewn yr ysgol, ac ar y cyfan mae’r adnoddau ar ei gyfer yn cael eu gosod cyn pob sesiwn a’u rhoi i gadw wedi hynny. Mae’n ofod addas gyda digon o le i blant chwarae a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Er enghraifft, roedd y plant yn chwarae gemau llawr, gemau pen bwrdd ac yn defnyddio'r gofod i eistedd yn gyfforddus a chael amser tawel neu ddal i fyny gyda'u ffrindiau. Defnyddir y tu allan yn dda, ac mae’r gwasanaeth yn gallu defnyddio’r rhan fwyaf o ardaloedd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cae mawr, ardal chwaraeon o laswellt artiffisial, ac offer chwarae sefydlog, y mae'r plant yn eu mwynhau oherwydd gallent gydbwyso, dringo a siglo. Mae cynllun yr amgylchedd yn sicrhau y gall plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad rhwydd i'r rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'r adnoddau synhwyraidd a ddyluniwyd yn arbennig yn cynnig ystod dda o brofiadau sy'n ennyn diddordeb ac yn datblygu synhwyrau'r plant. Mae’r rhain yn cynnwys goleuadau lliw, synau a chwarae gweadog, i gyd o fewn amgylchedd diogel sy’n caniatáu i blant archwilio a rhyngweithio heb risg.

Mae gan yr amgylchedd adnoddau addas sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant. Mae’r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio'n briodol i'w cadw'n lân ac maent yn cael eu cynnal a’u cadw'n dda. Mae cyfleusterau addas ar gael, gan gynnwys toiledau a chegin ar gyfer paratoi byrbryd. Mae ystod o ddodrefn o faint addas gan gynnwys cadeiriau, sy'n sicrhau bod y plant yn gallu bod yn annibynnol ac yn gyfforddus. Mae offer ac adnoddau y tu allan o ansawdd da. Maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn egnïol a chymryd risgiau pwyllog mewn amgylchedd diogel. Er enghraifft, mynd ar gefn y treiciau ac offer arall.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy’n rhedeg y cylch chwarae dealltwriaeth dda o’r gwasanaeth a’r gofal y maent yn eu cynnig. Mae ganddynt weledigaeth glir i gefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial a darparu cefnogaeth a chyngor i'r teuluoedd/gofalwyr. Mae’r datganiad o ddiben yn adlewyrchu arferion cyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni er mwyn iddynt allu penderfynu ai hwn yw’r lleoliad gofal cywir ar eu cyfer nhw a’u plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddaru'n rheolaidd, ac mae'r lleoliad ar hyn o bryd yn ceisio mynd yn ddi-bapur. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl waith papur yn cael ei gwblhau'n foddhaol, gan gynnwys cofnodion y plant ac yswiriant. Mae wedi'i drefnu'n dda, felly mae'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd gwerthuso'r gofal y maent yn ei gynnig. Maent yn casglu barn rhieni a phlant, ac yn defnyddio argymhellion o arolygiadau i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau. Mae ystod drylwyr o asesiadau risg, gan gynnwys gwiriadau dyddiol a diogelwch tân, yn cyfrannu at gynnal gwasanaeth diogel.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y cylch chwarae yn rheoli’r staff yn dda. Mae ganddynt raglen recriwtio gadarn ar waith sy’n sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio’n dda gan staff sydd â chymwysterau a hyfforddiant addas. Cesglir yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer ffeiliau staff, ond nid yw'r rhain bob amser ar gael yn y lleoliad gan fod y staff yn gweithio ar draws ychydig o wahanol safleoedd. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael cyfarfodydd a chyfleoedd rheolaidd i siarad â'r bobl sy’n rhedeg y cylch chwarae er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a nodi hyfforddiant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus i fynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad os oedd angen. Dywedodd pob un eu bod yn mwynhau gweithio yno.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad berthynas dda gyda'r ysgol. Mae hyn yn helpu'r plant i deimlo'n gyfforddus ac yn hamddenol. Mae'r berthynas hefyd yn caniatáu i gyfleusterau, adnoddau ac arferion da gael eu rhannu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cymorth ac arweiniad addas i'r rhieni a'r gofalwyr trwy adborth dyddiol rheolaidd, gan sicrhau bod y staff gofal yn hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r rhieni i nodi anghenion a dewisiadau unigol eu plant ac yn gweithio gyda'r rhieni i wella llesiant a dysgu eu plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 19/10/2022